

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyrol 3 Rhif 10

Yn rhad ac am ddim

Ionawr 2023

Dysgwyr Rhydychen



Dysgwyr Rhydychen

gan John Williams

Mae'n grŵp dysgwyr yma wedi bodoli ers rhyw deng mlynedd. Ar y dechrau roedd cyfarfod noson pob mis mewn tafarn yng nghanol y dre. Ers hynny dan ni wedi cyfarfod mewn sawl caffi a thafarn ac yn ystod y pandemig Cofid yn rhithiol dros Zoom. Ar hyn o bryd dan ni'n dal yn cyfarfod dros Zoom pob dydd Mawrth ond hefyd pob dydd Gwener yn wyneb i wyneb ar amser cinio yn Llyfrgell Weston y Brifysgol lle maen nhw wedi bwcio'r 'Space for Reading' ar ein cyfer. Weithiau hefyd dan ni'n mynd am 'walk+sgwrs' yn y cefn gwlad o gwmpas y ddinas. Mae mwy na pymtheg ohonon ni yn y grŵp rŵan ond dydy pawb ddim yn mynychu pob tro - yn arferol mae rhyw bedwar neu bump ohonon ni yno. Does dim Cymro/Cymraes, ond mae rhai ohonon ni wedi symud yma o Gymru, mae gan rhai eraill hen deidiau o Gymru ac mae rhai heb unrhyw

gysylltiad efo Gymru - yn ein plith mae siaradwyr o bob safon ac o bob oedran. Roedden ni'n falch i groesawu pedwar aelod newydd ers diwedd yr haf, a bydd croeso mawr i unrhyw un sydd eisiau ymuno â ni.

Fy Mhrofiad i

gan Sue Ward

Gwnes i ymuno â Grŵp Dysgwyr Rhydychen pan ro'n i'n dysgwr eithaf newydd. Dyna oedd y peth gorau i mi wneud. Gwnes i fynegi fy niddordeb ar Fforwm Say Something in Welsh, a ches i fy nghalonogi i ymuno. Es i i'r caffi yn teimlo braidd yn nerfus. Roedd dyn yn eistedd wrth fwrdd gyda baner Gymreig fach arno, a gwelais i fenyw yn siarad gyda fe cyn ymuno â'r ciw. Ro'n i wrth ei hymyl yn y ciw, felly dwedais i "Wyt ti'n siarad Cymraeg?" Roedd hi'n synnu, ond yn falch, a chytunodd hi yn frwd bod hi'n siarad Cymraeg. Dysgais i mai Cat oedd ei henw hi. Gwnaethon ni ymuno â John wrth y bwrdd.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Ar ôl pum mlynedd, dw i dal yn aelod o'r grŵp. Dim ond ychydig o'n i'n ddeall ar y dechrau. Gofynnodd rhywun i fi beth oedd fy enw, ond do'n i ddim yn deall. Ers hynny dw i wedi gwella, ond dw i dal yn siarad yn rhy gyflym a gyda llawer o gamgymeriadau.

Ar wahân i'r cyfarfodydd rheolaidd mewn un caffi neu'r llall, dyn ni wedi cael llawer o ddiwyddiadau difyr, wedi'u trefnu gan John, ein harweinydd gwych. Dyn ni wedi cerdded yn y cefn gwlad, wedi mwynhau ciniawau Nadolig arbennig, a gaethon ni daith cwch ar yr Afon Tafwys. Daeth Aran, Catrin (SSiW) a'r teulu gyda ni ar y cwch. Ces i brofiad arbennig iawn yn eistedd ac yn cael sgwrs hir gyda Catrin. Yn ystod Cofid a'r cyfnod clo, ro'n ni'n defnyddio Zoom, ac mae dal cyfarfod wythnosol dros Zoom gyda ni. Mae e'n gyfleus os dyn ni ddim yn gallu mynd i Rydychen, neu os oes diffyg amser.

Mae e'n ddiddorol pan mae pobl wahanol yn ymuno â ni. Rhai yn dod dim ond unwaith, rhai yn dod yn rheolaidd. Unwaith daeth menyw sy'n dysgu Arabeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Roedd hi'n digwydd bod yn Rhydychen, ac roedd hi wedi clywed amdanon ni. Dw i'n credi fy mod i'n lwcus iawn i fod yn aelod o Grŵp Rhydychen.

Taith ar afon Tafwys

gan Ruth Connor



Mi wnaethon ni cyfarfod ein ffrindiau o grŵp Rhydychen i gael taith ar afon Tafwys ym mis Awst 2019 efo fy mab, Liam, oedd yn un a hanner oed. Roedd pawb yn hyfryd. Mi wnaethon ni cyfarfod Aran a Catrin Lliar Jones, "the voices of the North" o SaySomethingInWelsh. Oedd hynny'n gyffrous i

mi achos roeddwn i wedi bod yn dysgu efo ap SSiW am tua thair wythnos! Doedd Liam ddim wedi dechrau dysgu Cymraeg ar y pryd ond mae o'n trio rŵan. Mae o'n licio gwyllo "Bedtime Welsh" efo Aran Jones a'i blant ar YouTube.

Dan ni wedi bod i lawer o bethau efo'r grŵp ers y daith ar y cwch. Dros y cyfnod clo roedd Liam yn licio dweud "Helo" dros Zoom. Ar ôl y cyfnod clo, roeddwn ni'n arfer mynd am dro efo Liam yn y bygi pan oedd o'n fach. Trefnodd y grŵp deithiau cerdded gan gynnwys ni. Rŵan, dan ni'n licio mynd ar y bws, neu'r trên, i gyfarfodydd Llyfrgell Weston dros wyliau'r ysgol. Mae Liam yn 5 oed rŵan! Ei hoff beth am y Llyfrgell Weston ydy'r caffi a bwyta cacen! Mae o'n eithaf swil weithiau a dydy o ddim yn licio siarad Cymraeg efo fy ffrindiau ond mae o'n ddeall llawer. Gobeithio, yn y dyfodol, bydd o'n medru bod yn fwy hyderus efo siarad Cymraeg.

Cadw Llyfr Lloffion

gan Elizabeth Rees-Gilbert

Pan o'n i'n myfyrwraig yn y brifysgol, cadwais i ddyddiadur celf. Darlunio oed fy mhwn, felly roedd llawer o gartwnau, sgriblon, lluniau dyfrlliw a thoriadau. Felly, nes i feddwl "beth am gadw dyddiadur eto - fel llyfr lloffion, ond dim ond yn y Gymraeg? Dim Saesneg o gwbl!".



Dw i'n dal yn hoffi sticeri (a chardiau post!). Dw i'n dal yn hoffi paentio a darlunio. Bydd y llyfr yn fy helpu i ysgrifennu. Mae fy nhiwtor yn dweud "syniad da!", felly dyma fo. Dw i'n torri hen gylchgronau, a chwilio am sticeri Cymreig a thameidiau crefft ar Etsy neu eBay. Pan dw i'n trio ysgrifennu am fy niwrnod yn y Gymraeg, dw i'n teimlo'n ddiolchgar am fy mywyd beunyddiol. Weithiau, dw i'n teimlo fel plentyn sy'n dysgu Saesneg eto. Dw i ddim yn gallu cwyno am fy swydd yn y dyddiadur eto, wrth gwrs, mae fy Nghymraeg yn rhy sylfaenol!! Ond, dw i'n mwynhau ei gadw.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalenau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Diane Offord

Diane dw i. Dw i'n byw ym mhentref ger Caerdydd o'r enw Pentyrch. Dw i'n dod o Aberdaugleddau yn wreiddiol. Dechreuais ddysgu Cymraeg yn ystod cyfnod clo Cofid 19. Dw i'n defnyddio SaySomethingInWelsh a Duolingo i ddysgu

Dw i ddim yn gweithio ar hyn o bryd. Ro'n ni wedi ymddeol ond weithiau dw i'n gweithio fel 'extra' ar raglenni teledu fel Pobl y Cwm a Casualty. Hefyd dw i wedi bod yn 'Bregus' ac 'Enid a Lucy'. Mae'n hwyl ond mae llawer o eistedd o gwmpas ac aros!

Dw i'n hoffi Pilates, Ioga a cherdded yn y cefn gwlad. Hefyd dw i'n hoffi mynd i'r theatr i weld drama a sioeau. Dyn ni'n lwcus iawn yma. Mae llawer o theatrau yng Nghaerdydd

Mae dysgu Cymraeg yn anodd ond dw i'n ei fwynhau. Dw i ddim yn hyderus eto ac mae rhaid i fi ymarfer siarad mwy ond dw i moyn parhau.

Dal ati

Hwyl fawr

John Powell

Daeth fy nheulu o Sir Drefaldwyn yn wreiddiol, ond ces i fy ngeni yn Birmingham ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd.


Ar ôl byw mewn lle ynysig ar Dartmoor am fwy nag ugain mlynedd, symudon ni i Llanbed - Llanbedr Pont Steffan - yng Ngheredigion ym 2018. Roedd e'n bwysig i ni ddysgu Cymraeg. Ro'n i wedi dysgu rhywfaint o Gymraeg pan o'n i'n gweithio fel gwirfoddolwr ar Reilffordd Tal-y-llyn yn y Chwedegau. Roedd fy ngwraig wedi dysgu rhywfaint o Gymraeg yn y brifysgol yn Aberystwyth yn y saithdegau.

Dechreuon Gwrs Mynediad mewn dosbarthiadau wyneb yn wyneb yn y dre gyda Dysgu Cymraeg. Oherwydd y pandemig, roedd yn rhaid i ni ddysgu ar-lein. Gobeithio, byddwn ni'n gorffen Lefel Canolradd o fewn yr ychydig

fisoedd nesa. Dych chi byth yn rhy hen i ddechrau dysgu Cymraeg!

Cadw Cangarw

gan Myfanwy Sutton



Myfanwy dw i. Dwi'n byw ar fferm fach "Cae Mawr Farm" Yn ne Tasmania. Dw i'n cadw defaid ar gyfer y farchnad cig oen tew.

Mae fy nheulu yn dod o ogledd Cymru ac yn siarad Cymraeg. Dw i wedi cwrdd â merched gwych sy'n ceisio dysgu Cymraeg i mi yn yr U3A.

Fe wnes i achub cangarw yn ddiweddar. Babi yw hi ac wedi ei hanafu ond mae hi'n gwneud yn dda, Alys yw ei henw. Gobeithio pan fydd Alys wedi tyfu bydd hi'n mynd yn ôl i'r gwyllt. Mae hi'n yfed un litr o laeth heb lactos a glaswellt pob dydd. Does dim ots gan y cŵn kelpies. Maen nhw'n hapus yng nghwmni Alys.

Richard Sampson

Fy enw yw i Richard Sampson, dw i'n byw ger Sceddau, sir Benfro gyda fy mhartner Bea a Ianto, Ianto yw ein ci ni. Mae dau o blant gyda ni, Chris a Morwenna. Symudon ni yma ddeuddeng mlynedd yn ôl. Gweithiais i fel pennaeth mewn Ysgol Gynradd yn Nyfnaint am amser hir. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers i ni ddod i Gymru. Dw i'n hoffi garddio, mynd â'r ci am dro a hen feiciau O! A dysgu Cymraeg.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Judi Davies

"Fy enw i yw Judi. Dw i'n byw yn Aberdâr ond dw i'n dod o Loegr yn wreiddiol. Dw i wedi byw yma ers 1987, ond dechreuais i ddysgu Cymraeg yn 2012.

Dw i wedi ymddeol nawr, ers 2014, ond ro'n i'n arfer gweithio fel athrawes yn Llundain, Briton Ferry ac Aberdâr. Ar ddiwedd fy ngyrfa llyfrgellydd o'n i, mewn ysgol uwchradd.

Dw i'n briod ag Andrew (Davo) ac mae dwy ferch ac un wyres gyda ni. Tiwtor Cymraeg i oedolion yw ein merch henach ac mae ein merch ifancach yn siarad Sbaeneg. Mae hi'n gallu deall llawer iawn o Gymraeg ac yn siarad tipyn hefyd, ond roedd rhaid iddi ddysgu Sbaeneg achos roedd hi'n arfer byw ac yn gweithio ym Madrid.

Ein merched yw'r prif reswm i fi ddysgu Cymraeg. Mae'n wych mod i'n gallu siarad â nhw ac ein hwyres fach yn Gymraeg nawr. Dw i wedi stiwardio mewn dwy Eisteddfod ac roedd hynny'n help mawr i fi ar fy nhaith i ddysgu'r iaith. A llawer o hwyl hefyd.



Mae ein teulu ni'n ffans mawr o rygbi a phêl-droed ac yn edrych ymlaen at ddilyn Cymru yng Nghwpan y Byd. Byddwn ni'n gwyllo'r gemau mewn tafarn lleol. Dyma lun ohonof i, fy ngŵr a'i ffrindiau'n canu Yma o Hyd mewn tafarn yn Ninbych-y-pysgod dros y penwythnos diwethaf. Fi yw'r fenyw sy'n dal pen y faner. Y dyn ar fy mwys i yw'r canwr Stu Smith, o'r Rhondda, oedd yn anhygoel yn canu caneuon Cymraeg a Saesneg.

Dewch ymlaen Cymru!"

Mark Rudman

Helo bawb. Mark dw i.

Mi ges i fy ngeni a fy magu yn Portsmouth. Roedd gen i sawl cysylltiad â Chymru yn ystod fy mhentyndod. Roedd gan gymydog Corgi (corgi: "dwarf of a dog"), ac roedd 'na strydoedd wedi'u henwi ar ôl lleoedd yng Nghymru. Roedd gan ddau o fy ffrindiau ysgol gariadon a oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl. Dim ond ar ôl blynyddoedd ro'n i'n gwybod hynny.

Ond o ddifri, roedd fy nghysylltiad cyntaf go iawn ar wyliau teulu yn Llangollen ac Aber Mawddach. Hyd yn oed yn ddeg oed, mi 'wnes i deimlo fod sŵn yr iaith yn hudolus. Dwi'n meddwl mod i wedi cael ymdeimlad o Hiraeth ers hynny.

Dw i wedi byw efo fy mhartner am fwy na hanner fy mywyd. Mae hi'n dod o Gaerffili yn wreiddiol ond doedd ganddi hi ddim Cymraeg yn blentyn, trist iawn. Roeddwn ni'n byw yn Surrey tan i ni symud yma, ond mi wnaethon ni cyfarfod am y tro cyntaf tra oedden ni'n gweithio yn Ynys Wyth.

Roedden ni'n gweithio i'r Gwasanaeth Iechyd. Roedd y ddau ohonon ni mor hapus i ymddeol yn gynnar ddeng mlynedd yn ôl. Roedden ni'n hapusach am symud i Borthmadog yng Ngogledd Cymru, a dysgu "iaith y nefoedd" efo'n gilydd. Mae'n debyg mai dyma'r peth gorau i mi ei wneud erioed.

Ro'n i'n anobeithiol mewn ieithoedd yn yr ysgol, ond dwi'n siŵr bod tipyn bach o Ladin a Ffrangeg yn fy helpu hyd yn oed rŵan. Ond, yn bwysicach, dw i'n fwy awyddus i ddysgu! Hefyd dw i wedi dysgu cymaint am yr hanes a diwylliant, fy mod yn teimlo fy mod yn berson gwahanol rŵan.

Dyna ni. Dw i'n licio dweud mod i wedi dod o Port*m**** i Bort*m**** mewn 67 mlynedd!

Pan o'n i'n trefnu teithiau cerdded i ddysgwyr ym Mhowys blynyddoedd yn ôl nes i sylwi bod llawer yn dod o Portsmouth yn wreiddiol.

Tybed pam?

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Ymweliad â Garth Newydd

gan Rob Evans



Ar y 13eg o fis Tachwedd ces i'r fraint o ymweld â Garth Newydd yn Llambled, adnodd newydd i'r iaith Gymraeg a chyfle i ddysgwyr treulio amser mewn awyrgylch Gymraeg, nid yn unig yn y gwesty ond yn yr ardal. Mae'r iaith Gymraeg yn gryf yn Llambled a'r cyffiniau. Dyma gyfle arbennig i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg maen nhw wedi dysgu a sylweddoli gymaint maen nhw wedi dysgu. Pan dach chi mewn dosbarth mae'n bosib eich bod chi'n poeni gormod ar faint o Gymraeg sydd yn ddiarth i chi.

Ond beth yw pwrpas iaith? Ffordd o gyfathrebu ynte? A'r mwyaf dach chi'n siarad y mwyaf dach chi'n dod i arfer â'r iaith a bod yn gyfforddus wrth siarad. Mae bod yn gyfforddus wrth siarad yn bwysig dros ben achos unwaith dach chi wedi cyrraedd y pwynt yna mae eich hyder yn codi a dach chi'n ysu am ddysgu mwy. Felly mae'r dosbarth a'r cyfleoedd yma yn mynd llaw yn llaw i gyflymu eich dysgu.

A phwy sydd ddim yn mwynhau cael dyddiau i ffwrdd efo pobl efo llawer o wahanol ddiddordebau ond efo un diddordeb yn gyffredin – siarad Cymraeg?

Perchennog Garth Newydd yw Marcus Whitfield, yn ddysgwr ei hun ac yn amlwg yn frwdfrydig dros ein hiaith. Mae'n cymryd balchder yn yr adeilad, mae'r lle yn lân a chyfforddus, cegin fodern a lolfa helaeth.

Mae gwahanol themâu i bob penwythnos a gallwch chi weld y manylion ar y wefan <https://paned.cymru/>. Yma byddwch yn sylweddoli bod rhan fwyaf ohonyn nhw wedi eu llenwi yn barod, mae pethau fel 'na yn dweud cyfrolau.

Cadwch eich llygaid ar y wefan!

GARTH NEWYDD, LLANBED

LLE CARTREFOL I ADEILADU
HYDER YN Y GYMRAEG



Mae'n darparu:

- Llety yn cynnwys cyrsiau er mwyn codi hyder pobl i siarad Cymraeg
- Cyfle i fwynhau a rhannu profiadau mewn awyrgylch braf.
- Cyfle i brofi gweithgareddau newydd - fotograffiaeth, hanes Cymru, crefft a mwy!
- Cyfle i ddod i 'nabod a chymdeithasu gyda siaradwyr iaith gyntaf.



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

codihyder@gmail.com

www.paned.cymru ...

neu galwch heibio!

Garth Newydd
Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
SA48 7AA



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027



Dewch efo ni ...

... am lond diwrnod o siarad tu allan yn y cefn gwlad a dysgu am fyd natur a hanes lleol. Wrth gerdded efo ni yn reolaidd byddech yn gallu gweld lliwiau ein byd yn newid trwy'r tymhorau, gwneud ffrindiau newydd a dod i adnabod y byd Cymraeg.

Y De a'r Canolbarth

Rhaglen mis Ionawr/Chwefror 2023

Mae pob taith yn dechrau am 10.30

Dim cŵn os gwelwch yn dda

Teithiau'n gorffen tua 3.00

7/1/23 – Dim Taith

14-1-23 Rhwng Trinant a Nant Melyn. Blaen Wysg. Taith Archeolegol tua wyth milltir. Peth dringo gweddol esmwyth. Hefyd edrych ar weddillion Lancaster W4929. **Man Cyfarfod** Maes parcio Coedwig Glasfynydd, Pont ar Wysg. Cŵd Post agosaf **LD3 8YF SN820271** **Arweinydd: Arwel Michael** 01639 844080

21/1/23 Dim Taith

28/1/23 Dim Taith

4/2/23 Cwmllynfell/Cwmtwrch (Uchaf!) Taith ffigwr 8, tua 6.5 milltir, peth dringo, (weddol hamddenol), llwybrau cadarn. **Man Cyfarfod:** Maes parcio ger y parc ar Heol Penygraig, Ystradowen, Cwmllynfell **SA9 2YP SN752124** **Arweinydd: Eirian Davies** 01792 844821

11/2/23 Llys-faen, Caerdydd Taith hamddenol tua 5 milltir yng Ngogledd Caerdydd o Lys-faen i Barc y Rhath trwy Goed Nant Fawr. Dim dringo. Dychwelyd i Lys-faen ar y trŵn - £2.90 neu £1.90 gyda'ch Cerdyn Teithio Rhatach Cymru **Man Cyfarfod** Maes Parcio Gorsaf Trenau Llys-faen, Cherry Orchard Road. Cŵd Post agosaf **CF14 0UE** **Arweinydd: Alan Williams** 07989 451348

18/2/23 Dyffryn Cennen Dilyn Afon Cennen lawr i bentref Trap ac ymlaen i Bont Gelli a Chapel Soar. Y ffordd nôl bydd heibio Eglwys Llandyfân a dros Garreg Dwn, y copa mwyaf gorllewinol yn y Parc Cenedlaethol. Tua 8 milltir, gallu fod yn wlyb. **Man Cyfarfod** Maes parcio Castell Carreg Cennen, **SA19 6UA SN 667193** **Arweinydd: Richard Davies** 07986 562 584

25/2/23 Cronfa Ddŵr Cwm Wysg Taith 7 milltir esmwyth a hamddenol o amgylch y gronfa ddŵr. Ymlaen heibio'r Fedw Fawr ac edrych at geunant Afon Clydach o Fryn yr Wyn. **Man Cyfarfod** Maes parcio Coedwig Glasfynydd, Pont ar Wysg. Cŵd Post agosaf **LD3 8YF SN820271** **Arweinydd: Arwel Michael** 01639 844080

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Llefydd ble mae grwpiau Cymraeg ar gael

Abergwaun, Sir Benfro. Cyfarfod yn Janes Woolshop, High Street, Abergwaun.

SA65 9AR bob dydd Llun rhwng 10.30 a 12.30. Croeso cynnes i bawb!

Birmingham

Cwrdd y cyntaf dydd Llun a'r trydydd dydd Mawrth bob mis

Cherry Reds (cafe bar), John Bright Street, Birmingham, B1 1Bj anine310@btinternet.com

Facebook - Birmingham Welsh Meet Up

Caerdydd Clonc Bore Llun. Yr Awr Hapus. Un wythnos ar Zoom, 10-10.40 wythnos wedyn yn yr Hollybush Coryton, 10.30-11.30. Yna nol ar Zoom unwaith eto... Cysylltwch gyda eirianagwilym@gmail.com neu, @GwilymDafydd ar Trydar am fwy o fanylion.

Caerdydd Clonc dydd Iau Castell Caerdydd, awyr agored rhwng 1-2 o'r gloch. Ond erbyn canol Hydref nol i gaffi Neros yn Jams Hywel, Yr Ais fydd hi mae'n siŵr. Cysylltwch gyda eirianagwilym@gmail.com neu @GwilymDafydd ar Trydar am fwy o fanylion.

Caerloyw. Lock Keepers, Horseshoe Drive, Over, GL2 8DB. Dydd Iau 9fed Tachwedd, 2.00yp. Dewch i gael hwyl a chyfle gwych i siarad Cymraeg. Peidiwch â bod yn swll! epost: fibenson@gmail.com

Cwm Ivy - Shw mae dydd Iau Siop y Bobl Llanmadoc. Ewchheibio 'r dafarn Britannia tuag at yr eglwys ac mae'r siop ar y dde ar ben yr allt. Golygfeydd ysblennydd a chroeso Cymraeg cynnes. Pob dydd Iau o 11.00 tan 4.00 bobwennol@ntlworld.com

De Ddwyrain Cernyw - y bore Gwener olaf yn y mis, am 10:30 yb am awr neu awr a hanner; fel arfer yn y caffi ym Mhortwrinkle - The Jolly Roger, neu yn Looe yn Island View Cafe (ar ôl y Pasg). Ond - cysylltwch â Lillian am fanylion yn gyntaf. lillian@environomics.co.uk

Llanelli Cyfarfod yn Nhafarn y Glowyr am 7.00 tan 8.30 bob nos Lun. Croeso i bawb. clwbcecsllanelli@gmail.co

Oxford/Rhydychen 'Space for Reading', Weston Library, Broad Street, Oxford, OX1 3BG. Pob dydd Gwener amser cinio, 12:00 tan 13:00 Cysylltwch â John Williams

jwilliams718@btopenworld.com

Porth, Y Rhondda

Yr Hen Lyfrgell, 47 Pontypridd Road

CF39 9PG. Cyfarfod yn y lolfa goffi bob dydd Iau am 10.30 y.b.

Mae llyfrau ail law Cymraeg ar werth a llawer o bethau eraill yn mynd ymlaen hefyd.

Southgate, Bro Gŵyr

Three Cliffs Cafe **SA3 2DH** - pob pnaun dydd Mawrth am 2.00 am ryw awr a hanner. Does dim ond rhaid i chi droi fyny neu cysylltwch â fi o flaen llaw bobwennol@ntlworld.com

St Albans, Hertfordshire. Cyfarfod ail ddydd Sadwrn yng nghaffi canolfan arddio Notcutts, Hatfield Road, St Albans, AL4 0HN o 10.30 i tua hanner dydd.

Epost: amandaferon@outlook.com

Thornbury, Glos

Held on the last Tuesday of each month from 14:30 – around 16:00 in Hawkes House, St Mary's shopping precinct, Thornbury BS35 2AB. I call the group 'Cornel y Siaradwyr' and there are usually between 8 and 12 of us present, a mix of 1st language speakers and learners. The next one will be on the 29th November followed by a break in December. Contact: britpgj@gmail.com

Trefdraeth, Sir Benfro. Cwrdd bob bore dydd Mercher am 10.30 y.b. yng Nghaffi Blas at Fronlas yn Stryd y Farchnad. **SA42 0PH.** Croeso cynnes i bawb.

Y Fenni Dydd Llun am 10.30-11.30 - Grŵp Bore Coffi - Y Trading Post, Neville Street, Y Fenni, NP7 5AA - Trefnydd: Chris Chetwynd - e-bost Chris.Chetwynd@coleggwent.ac.uk

Dydd Mercher am 13.00 - 14.00 - Clwb Coffi Y Fenni Newydd (Grŵp sgwrsio anffurfiol) - Y Trading Post fel uchod

Trefnydd: Thomas Hughes - 07923 611342 gwybodaeth@menterbgmtm.cymru

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Mwy o lefydd ...

Yr Amwythig

Grove Hotel, 147 Belle Vue Road, Shrewsbury. **SY3 7NN** ar y cyntaf a'r trydydd ddydd Iau pob mis, am 7.30 Am fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Bryan Roberts - bryro@btinternet.com neu ar 07985919358



Llanymddyfri oedd y man cyfarfod ac roedd ugain ohonom ni wedi troi fyny.

Rŵan mae pawb sydd wedi parcio yma wedi gweld y gerddedw lliw arian sydd yn sefyll ar ben y twmp yn gwarchod adfeilion y castell a phawb sydd yn gallu darllen yn gwybod mai Llywelyn ap Gruffudd Fychan oedd o. Ond tybed faint sy'n gwybod pwy oedd o? Dyle pawb wybod.

Mae stori Llywelyn ap Gruffudd Fychan yn mynd yn ôl i ddyddiau Owain Glyndŵr a'i frwydr am annibyniaeth. Roedd Owain wedi cyflawni gwrth wrth uno Cymru yn erbyn Henry IV, roedd hyd yn oed wedi ennill brwydrau ar ochr arall i'r ffin ac wedi cael milwyr o Ffrainc i'w gefnogi. Roedd hyn yn ormod i'r Brenin ac roedd rhaid cael gwared ag Owain. Ond sut? Roedd o'n anodd iawn i'w dal. Cipiodd Henry Llywelyn ap Gruffudd a'i wneud iddo arwain nhw at Owain ond ar ôl ychydig o ddyddiau yn mynd â nhw ar daith hir ond seithug roedd yn amlwg bod o wedi bod yn gwastraffu eu hamser. Doedd dim maddeuant am hynny a chafodd ei ddienyddio o flaen y castell a bu farw mewn ffordd erchyll. Gwladgarwr dewr iawn ac yn wir haeddu'r gofeb.



Esgidiau Breintiedig

gan Rob Evans



Roedd y dydd Sadwrn yn mynnu bod yn glir ac yn sych, pam? Wel roedd Audrey Price yn mynd i'n harwain ni trwy gaeau sydd wedi cael dyrchafiad mawr yn ddiweddar, nid Tir y Tywysog ydyn nhw bellach ond Tir y Brenin. Ia roeddwn ni'n mynd i gerdded taith oedd yn mynd heibio Llwyn y Wermod ger Myddfai. Tŷ haf y Brenin Siarl. Y maes parcio yn



A dyna ble oedd o, yn edrych i lawr arnom ni tra oedden ni'n cael manylion y daith gan Audrey cyn dechrau. Mynd wrth ochr yr afon Brân a oedd ar ruthr i gyrraedd y Tywi ac yn atgoffa ni am y tywydd gwlyb sydd wedi bod. Cyn bo hir dyn ni'n troi i mewn i goedwig Llwynywermod, cerdded i fyny yn uwch ac yn uwch a'r haul yn disgleirio ar y lliwiau hydrefol ar ochr arall y cwm. Roedd llawer o ffwng o gwmpas - o leiaf mae'r tywydd gwlyb dyn ni wedi cael yn cael ei groesawu gan ffwng.

Wrth nesáu at y giât cyn dod allan o'r goedwig roedd merch a chŵn yn cerdded tuag atom ni ac roedd Audrey yn ei hadnabod yn syth. Roedd rhaid iddi ei chyflwyno hi i ni achos Catrin Dafis oedd hi, merch Dafydd Dafis, Rhandirmwyn, y

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

dyn a wnaeth sefydlu ein Cymdeithas yn ôl ym 1978, 44 o flynyddoedd yn ôl. Roedd yn bleser mawr i ni ei gweld hi a dw i'n siŵr byddai hi wedi cael teimlad braf wrth weld ugain o aelodau Cymdeithas ei thad yn dal i grwydro'r cefn gwlad.



Roedd hi ychydig bach yn gynnar i gael ein picnic ond roedden ni ar dir uchel a nifer o foncyffion ffawydd yn gorwedd ar y llawr ac fel y gwyddoch fod boncyffion ffawydd yn llyfn iawn ac yn ddelfrydol fel meinciau. Roedd y penderfyniad yn unfrydol!

Erbyn hyn roedden ni'n cerdded trwy dirlun cyfoethog yr olwg, bron, naci wir yn union fel, parc a dyn ni'n ffodus i fyw mewn gwlad ble mae rhyddid i gerdded yn y fath le.

Dros gamfa rŵan ac yn sydyn dyma Audrey yn ein cyhoeddi bod ni'n cerdded ar Dir y Brenin, a ninnau yn ein 'sgidiau budron hefyd! Ond dw i'n siŵr ei fod 'O' yn brysur rywle arall heddiw. Cerdded trwy'r cae a chyrraedd trac a giât ar y chwith yn dweud yn glir iawn nad oedd croeso i ni fynd trwyddo. Yn amlwg nad ydyn nhw'n gwybod pwy ydan ni! Nid yw'r llwybr trwy'r cae wedi cael ei marcio heblaw am sribyn wedi cael ei dorri'n daclus sydd yn dweud yn glir "Dyma'r llwybr, cadwch ati!" Ond os dach chi'n cadw at y llwybr nid yw'r tŷ mewn golwg felly roedd rhaid cerdded tipyn bach i'r chwith i weld y tŷ yn ei lawn ogoniant. A dyna lle oedden ni yn syllu i'r haul i drïo ei weld pan welsom ni Landrover yn dechrau symud o gwmpas ac yn parcio mewn lle cyfleus i gadw llygaid arnon ni. Efallai'n wir eu bod nhw'n gwybod pwy ydan ni wedi'r cwbl!

Well i ni fynd. "At ease soldier!"

Cyrraedd y ffordd o Fyddfai i Lanymddyfri ac yn fuan dyn ni'n cyrraedd coedwig Llwynywermod unwaith eto, mae golau llachar y

bore wedi dechrau diflannu ond dyn ni'n cyrraedd y maes parcio heb ddim sôn am law. A dyna ni wedi cael taith hyfryd a diddorol heb ddiferyn o'r glaw dyn ni wedi dod i arfer ag am wythnosau, felly, yn sicr diolch i Mr Brockway.

Ond mae'r diolch mawr i Audrey am daith arbennig o bleserus mewn ardal hyfryd, frenhinol hyd yn oed. Taith fythgofiadwy yn wir!

Hwb Cymraeg Dwyfor

Dewch i siarad Cymraeg...

Dydd Llun 1af y mis
1st Monday of the month
10:30
Plas Heli, Pwllheli, LL53 5YT

2il nos Lun y mis
2nd Monday evening of the month
19:30
Yr Heliwr, Nefyn, LL53 6HD

3ydd dydd Sadwrn y mis
3rd Saturday of the month
10:30
Sportsman, Porthmadog, LL49 9HB

Cwestiynau? Anfonwch e-bost at
Martyn: m.croydon@bangor.ac.uk

www.facebook.com/HwbCymraegDwyfor

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen
e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Newyddion Da!

Mae holl ôl-rifau Y Wennol ar gael ar fy ngwefan
www.gydangilydd.cymru
Llawer, llawer, llawer mwy o Gymraeg i'w ddarllen

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Gwyddel yng Ngŵyr

gan Neil Barry



Neil Barry dw i a dw i'n dod o Conna, pentre' bach yn Sir Gorc yn Iwerddon. Ces i fy magu ar fferm fach. Wnes i feicio i'r ysgol gynradd leol ac wedyn, es i ar fws ysgol i'r ysgol uwchradd yn Fermoy, y dref agosaf.

Symudais i Lundain ym 1985 a dechreuais weithio i British Telecom. Fel dyn ifanc o'r cefn gwlad, roedd e'n gyffrous iawn i fyw mewn dinas fawr a wnes i fwynhau cwrdd â phobl o gefndiroedd gwahanol i fi.

Cwrddais fy mhartner Steffan yn 1991 a daethon ni ar wyliau i Benrhyn Gŵyr yng ngwanwyn 1992. Dyna oedd y tro cyntaf i fi ond nid Steffan oherwydd daeth e yma gyda'i deulu pan roedd e'n ifanc. Roedd yn lle arbennig iddo fe. Wnes i gwmpo mewn cariad â Gŵyr hefyd a chawson ni lawer o wyliau bendigedig yma. Dyn ni'n hoffi cerdded ac mae 'na lawer o leoedd braff i fynd. Hefyd, mae pobl yn gyfeillgar ac mae bywyd yn fwy hamddenol.

Wrth i ni fynd yn hŷn, doedd byw yn Llundain ddim yn apelio gymaint. Symudon ni yma yn 2008 a dyn ni wrth ein boddau yn byw yma. Cawson ni croeso mawr a wnaethon ni lawer o ffrindiau - mae'n teimlo fel cartref. Dyn ni'n ffodus iawn i fyw mewn lle mor hardd.

Dwi'n dysgu Cymraeg i ddangos parch at y lle dw i'n galw'n gartref nawr. Mae dysgu'r iaith hefyd yn eich dysgu am yr hanes a'r diwylliant ac yn ffordd o gwrdd â phobl o'r un anian.

Dw i'n dysgu cwrs Sylfaen yn Llanrhidian yng ngogledd Gwyr. Dw i'n mynd i'r dosbarth bob bore Llun a hefyd dw i'n mynd i 'Shwmae Dydd Iau' bob bore Iau yn Siop y Bobl yn Llanmadoc. Mae'n gyfle i ymarfer a dw i'n ddiolchgar iawn i Vincent, Rob, Huw ac eraill am eu cymorth ac amynedd.

Bertsolari Txapelketa Nagusia

Prif Bencampwriaeth Barddoniaeth ar y Pryd yng Ngwlad Y Basg

gan Deborah McCarney

Yng Nghymru mae traddodiadau'n bwysig iawn yn enwedig y traddodiadau ynglŷn â barddoniaeth. Rydyn ni i gyd yn gwybod am y seremoni cadeirio sy'n digwydd bob blwyddyn yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol, ac mae pobl yn siarad am rywun sy'n brifardd gyda llawer o barch.

Yng Ngwlad y Basg mae gan siaradwyr Basgeg draddodiad sy'n debyg mewn ffordd – mae'n ymwneud â barddoniaeth – ond dyna ble mae'r tebygrwyd yn gorffen.

Bob blwyddyn, mewn dinasoedd, trefi a phentrefi dros Wlad y Basg, mae "bertsolari" yn cystadlu yn erbyn ei gilydd i greu barddoniaeth. Dydy hynny ddim mor wahanol i Gymru, efallai byddech chi'n meddwl, ond nid yn unig ar y pryd mae bertsolari yn creu eu penillion, ond maen nhw'n gorfod eu canu hefyd!

Rydyn ni wedi cyrraedd amser y flwyddyn pan dim ond y bertsolari gorau sydd ar ôl yn y gystadleuaeth - y rownd gynderfynol allwn ni ddweud. Bydd sawl sesiwn yn cael ei chynnal yn bob sir o Wlad y Basg gyda channoedd o bobl yn mynd i gefnogi'r beirdd.



Es i i un sesiwn yn ddiweddar yn Durango, sydd yn un o drefi Biskaia. I gyrraedd Durango mewn bws, rhaid croesi mynyddoedd Parc Natur Urkiola. Mae'r ffordd yn troi i'r chwith, i'r dde, i'r chwith eto mewn cyfres o fachdroeon, ond mae'r golygfeydd yn anhygoel! Llwyddais i dynnu cwpl o luniau trwy ffenest y bws ond doedd hi ddim yn hawdd! Mae safle bws mewn lle uchel iawn yn y

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

parc, felly dw i wedi rhoi hynny ar fy rhestr hir o lefydd i weld gyda ffrindiau!

Pan gyrhaeddod ni'r neuadd ble oedd y gystadleuaeth yn mynd i ddigwydd, o'n i'n synnu cymaint o bobl oedd yno – cannoedd ohonyn nhw! Ro'n ni bach yn gynnar, felly wnaethon ni 'run peth â phawb arall, sef rhoi côt ar sedd rydd a mynd i ffeindio'r tŷ bach! Am giw hir! Ond llwyddais i gyrraedd nôl i gymryd fy sedd cyn i bopeth ddechrau.

Dechreuodd tipyn bach o gerddoriaeth a daeth teimlad o ddisgwyliad dros y dorf. Yn sydyn, clywon ni sŵn pobl yn clapio yng nghefn y neuadd a daeth y cyflwynydd a'r chwe bardd i mewn. Aethon nhw lan ar y llwyfan a dechreuodd y noson.

Yn gyntaf, oedd rhaid i bob bardd canu penillion sy'n cyflwyno ei hunan ond hefyd yn dweud rhywbeth am Durango. Wedyn dechreuodd y gystadleuaeth go iawn! Cyn bob rownd, dwedodd y cyflwynydd pa bâr o feirdd oedd yn mynd i gystadlu, wedyn rhoddodd hi bwnc iddyn nhw a dwedodd pa fath o gerdd oedd rhaid iddyn nhw greu. Heb unrhyw amser i feddwl roedd rhaid iddyn nhw ddechrau - creodd a chanodd un ohonyn nhw un pennill am y pwnc, wedyn wnaeth y llall yr un peth, bob un yn ateb y llall ac yn datblygu'r gerdd gyda'i gilydd.



Ar ôl un pâr, pâr arall, gyda phwnc arall a dyna sut oedd y noson yn mynd ymlaen hyd at y rownd olaf. Y tro hwnna, roedd rhaid iddyn nhw fynd allan a dod i mewn un ar y tro, a gaethon nhw i gyd yr un pwnc. Roedd tipyn bach o amser i bob un meddwl yn syth ar ôl clywed y pwnc, wedyn oedd rhaid iddyn nhw greu tri phennill sy'n datblygu'r thema, ac os bosib, bod yn ddoniol hefyd!

I orffen mae pob un yn canu pennill personol heb bwnc, ac yn syth wedyn, mae'r beirniaid yn

cyhoeddi'r canlyniadau. Maen nhw'n dechrau gyda'r enillydd a faint o bwyntiau gaeth hi neu fe, lawr at y person olaf, ond mae'r dorf yn clapio pawb yn frwd!

A beth fydd yr enillydd yn derbyn yn y rownd derfynol? Wel, beth yw ystyr "txapelketa"? Mae'n golygu "pencampwriaeth" ond mae'r gair "txapela" yn meddwl "het", a dyna beth maen nhw'n ennill. Nid cadair fel yng Nghymru, ond het siâp beret mawr gyda'r gystadleuaeth a dyddiad wedi'u brodio arno fe!

Bachgen yn Aberystwyth Rhan 2

gan Bryan Roberts

Yn y rhan yma, hoffwn ddweud dipyn bach am fy mhleentyndod a'r ffactorau oedd wedi dylanwadu arnaf.

Felly, beth am bobl ifainc? Lle aethon nhw i'r ysgol er enghraifft? Wel es i i ysgol sydd ddim yn bodoli erbyn hyn. The National School ar Ffordd y Gogledd oedd hi ond erbyn hyn mae 'na bloc o fflatiau yn i le ond mae tŷ'r prifathro'n dal yna, drws nesaf.

Ysgol gynradd oedd hi ond beth am addysg Uwchradd? Os yr oeddech chi'n ddeallus, roedd ysgol gramadeg, Ardwyn, yn y dref ond os nad oeddech chi'n gallu pasio'r arholiad i fynd yna, roedd rhaid i chi fynd i'r 'Board School' yn agos at yr orsaf. Mae'r adeilad yn dal yna, dyma hi, yn y llun.



A beth oedd ar gael fel gweithgareddau i blant ifainc? Dim llawer i ddeud y gwir, ac roedd rhaid i ni ddefnyddio ein dychymyg er

mwyn dod o hyd i bethau i'w gwneud. O'n i'n arfer crwydro, efo'm ffrindiau, dros y brynau tu ôl i'r dref, neu chwilio am greaduriaid y môr mewn pyllau'r creigiau sy'n estyn allan o'r traeth. Hefyd, os gallwn ni ddod o hyd i ddarnau o wydr wedi cael eu gwneud yn esmwyth gan y môr a'r tywod, roeddwn ni wrth ein bodd, oherwydd trysorau bach oedden nhw, yn enwedig darnau lliwgar coch, gwyrdd, neu glas.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Mae'n swnio'n rhyfedd iawn rŵan ond, roedden ni'n arfer chwarae "Cowbois ac Indiaid efo gynnu fel yn y ffilmiau, ac yn cogio saethu ein gilydd. Hefyd roedden ni'n prynu fferins (losins yn y Dde) oedd yn edrych fel sigarêts ac yn cogio ysmegu. Diolch byth bod ni'n byw mewn amseroedd mwy goleuedig y dyddiau hyn!

Wel, dyna fo, mae'n ddrwg gen i os oes unrhyw un o'r pethau wnes i sôn amdany'n nhw yn y darn yma'n anghywir. Ar ôl cymaint o amser wedi mynd heibio, mae'n debyg fy mod i wedi gwneud camgymeriad neu ddau.

Nid oedd fy mywyd yn Aber yn hir iawn, oherwydd, symudodd y teulu o'r dref pan o'n i'n ddim ond ddeng mlwydd oed, i fyw yn agos at Langollen. Efallai bydd stori fach yna hefyd. Cawn ni weld.

Y Llyfr

gan Robert Arnold



Beibl y Teulu, yn fawr, mewn lledr brown, bellach wedi cracio a threulio. Roedd e fel hen ffrind iddo, ffrind braidd yn llym ond cariadus.

Cafodd lawer o ddigwyddiadau teuluol eu cofnodi ar y tudalennau sbâr. Yr achlysuron pwysig yn ein bywydau ni i gyd. Genedigaethau, bedyddiadau, penblwyddi, dathliadau, ac ym Meibl y Teulu mae enwau teuluol cyfarwydd yn dangos, wrth gwrs. A phriodasau - yn gynnwys un ei hun. E a'i wraig Llinos. A marwolaethau gan gynnwys un Llinos.

Cofiodd e'r amseroedd da, yn naturiol.

Eu rhamant gynnar, eu gwyliau, eu plant, eu cartref cyntaf. Er iddo fe geisio'u hanghofio, cofiodd e'r amseroedd drwg hefyd. Y nosweithiau tywyll, y dyddiau hir, ei salwch hir a phoenus. Diolch byth, roedd y rheiny i gyd wedi dod i ben.

Dywedodd pobl wrtho y byddai amser yn meddalur poen iddo. Ond roedd e'n sownd yn ei fyd trist, gydag atgofion tristach fyth. Allai e ddim byw hebdi hi. Doedd dim ond un peth nawr ar ôl iddo fe ei wneud.

Edrychodd ar y calendr. Gyda llaw gyson, ysgrifennodd y dyddiad yn y Beibl, gyda'i enw llawn, a dau air syml, "Bu Farw".

Wedyn, gadawodd e'r tŷ, a cherddodd yn hapus iawn i gyfeiriad yr afon.

Enwau Llefydd

gan Tomás McEvoy

Ar y diwrnod cyntaf o'r mileniwm, dechreuas i osod enwau llefydd ar gerrig calch yn ein plwyf ni yn Ne Sir Kilkenny yn Iwerddon. Enw ein plwyf yw Muileann â'n Bhata (Melin y Goeden) mae o gwmpas hanner cant o drefgordd.

Mae ardal trefgordd yn rhywbeth llawer pwysicach yn Iwerddon nag yng Nghymru, ac mae statws cyfreithiol yn perthyn iddyn nhw. Er enghraifft os 'dach chi'n prynu neu werthu tir, mae'r lleoliad yn cael ei dynodi o dan enw'r drefgordd. Os dach chi eisiau caniatâd cynllunio i adeiladu neu newid tŷ, mae'n bwysig dynodi enw'r drefgordd yn iawn. Mae pob modfedd o dir yn Iwerddon, dim ots pa mor anghysbell, mewn rhyw drefgordd. Yn ein hardal ni, mae maint y trefgorddau'n amrywio o 200 erw i fil a hanner erw. Syniad y Prosiect Enwau Llefydd oedd gosod enwau'r drefgordd mewn Gwyddeleg ar y ffin ar bob ffordd. Mae'r cerrig wedi cael eu troi er mwyn hwyluso ddarllen nhw wrth fynd heibio.



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

O'n i'n neud y prosiect trwy'r gangen leol o'r mudiad Comhaltas Ceoltóiri Éireann. Er mai cerddoriaeth ydy prif ffocws y mudiad, hyrwyddo'r iaith ydy nod arall, ac mae gan bob cangen "Tywysydd y Wyddeleg". Yn ystod y nawdegau o'n i wedi gweld prosiect tebyg yn yr ardaloedd Gwyddeleg yng Ngorllewin Iwerddon.

Cyn troad y mileniwm o'n i wedi cael cerflunydd cerrig bedd i dorri enwau deg trefgordd ar ddeg carreg calch, pob un yn pum modfedd o uchder. Mi oedd pedwar neu pum aelod arall o'r mudiad yn helpu fi, efo toriad y wawr ar y bore rhewllyd 'na, y cyntaf o fis Ionawr 2000. Mi o'n i wedi dewis y safleoedd haws i ddechrau; lle'r oedd wal yn bodoli eisoes, felly bysai dim gormod o waith i osod y cerrig.

Ac o'n i'n lwcus i gael pobl eraill i helpu am y ddwy flynedd gyntaf o'r prosiect, ond ar ôl hynny roedd y diddordeb yn pylu. Felly, am yr ugain mlynedd diwethaf, ar fy mhen fy hun dw i, yn gynnar iawn ar foreau'r penwythnos, yn ceisio adeiladu waliau cerrig er mwyn gosod enwau Gwyddeleg arnyn nhw. Ac yn nhawelwch y bore cynnar, mae'n gyfle gwych i werthfawrogi byd natur. Mi ges i ambell gyfle i weld bele'r coed, sy'n ddigon anghyffredin yma; a sawl tro mae llwynog wedi cael sioc wrth weld fi ar lôn bach gwledig i fynd yn y bryniau yn chwilio am garreg addas i osod yn y wal dw i'n adeiladau. Ac yr un mor hyfryd ydy edrych ar y niwl yn codi o ystrad o fforestydd, neu weld melyn yr eithin yn disgleirio wrth i'r wawr dorri'n raddol ar gors ar y bryn.

Yn y llun mae trefgordd o'r enw Cluain Easa (Ystrad y Rhaeadr) ar y ffin efo trefgordd arall o'r enw Baile Dhaith (Cartref Dewi). Os dach chi'n teithio i Cluain Easa mae'r garreg, Cluain Easa wedi cael ei osod er mwyn iddo fod yn eich wynebu chi. Os 'dach chi'n teithio i Baile Dhaith, mae'r garreg Baile Dháith, wedi cael ei osod er mwyn iddo fod yn eich wynebu chi hefyd.

O Doire i'r Alban

gan Ailéin Ó Clúmháin

Pythefnos yn ôl es i i'r Alban efo ychydig o ffrindiau i weld gêm bêl-droed. Roedd Celtic yn chwarae. Wnaeth fy ffrind yrru i Béal Feirste a phan gyrhaeddod ni aethon ni ar y fferi i'r Alban. Roedd y tywydd yn ofnadwy, roedd hi'n stormus

iawn. Wnes i ddim bwyta nac yfed unrhyw beth, achos doeddwn i ddim isio bod yn sâl, a diolch byth, doeddwn i ddim. Pan gyrhaeddod ni'r Alban, aethon ni ar fws i Glasgow. Fe barodd y daith ychydig oriau. Oedden ni'n aros mewn lle gwely a brecwast. Roedd hi'n rhad ond yn ddigon glân a chyfforddus.

Ar ôl i ni roi'r bagiau yn yr ystafell a cherded i mewn i'r dref, aethon ni i mewn i dafarn am ychydig o ddiodydd a gwyllo gêm bêl-droed ar y teledu. Ar ôl dipyn, aethon ni yn ôl i'r lle gwely a brecwast mewn tacsî. Wnaethon ni baratoi a ffonio tacsî arall i fynd â ni i'r gêm bêl-droed. Doedd y gêm ddim yn dda iawn, achos dim ond gêm gyfeillgar oedd hi, ond roedd yr awyrgylch yn anhygoel.

Gadawon ni ychydig funudau'n gynnar a dechreuon ni gerdded ond tu allan i'r parc aethon ni ar goll. Cerddod ni yn ôl i'r parc eto i gael y bws i'r dref a mynd yn ôl i'r un dafarn. Wnaethon ni aros yno am weddill y noson. Roedden ni'n chwarae pŵl ac fe wnaethon ni wrando ar y grŵp, roedd y gerddoriaeth yn wych.

Y bore wedyn, wnaethon ni ddim deffro tan un ar ddeg o'r gloch, felly colli brecwast. Aethon ni i'r caffî ar draws y ffordd a chael brecwast mawr, roedd yn flasus iawn. Ar ôl hynny, aethon ni yn ôl i'r lle gwely a brecwast i baratoi am fynd adref. Cawson ni dacsî i'r orsaf fysiau. Roedd yr hwyl ar y bws yn fendigedig efo'r bobl eraill oedd yn y gêm bêl-droed hefyd.

Ar y daith adref, doedd hi ddim yn stormus felly, wnes i yfed ambell i beint efo ffrindiau ar y fferi. Pan gyrhaeddais i Doire o'n i'n flinedig iawn, ond wnes i fwynhau'r daith i'r Alban yn fawr iawn a liciwn i fynd yn ôl eto rhywbryd, yn fuan gobeithio.

Fy mywyd yng Ngwlad Thai

gan Kelvin Jones



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Bachgen o'r Cymoedd (y Rhondda) dw i ond yn byw yng Ngwlad Thai (Gwlad y Gwenau) am hanner y flwyddyn. Ymwelais â Gwlad Thai ar wyliau am y tro cyntaf yn 2009 pan o'n i'n gweithio fel cyfreithiwr. Mae cant a mil o bethau i'w gwneud a'u gweld yma yng Ngwlad Thai. Mae gen i fflat stiwdio (3200B sydd tua £80 y mis) sydd chwarter awr o gerdded o'r traeth - neu 5 munud ar fy meic modur.



Y Baht Thai yw'r arian cyfredol yma, mae £1 yn gyfartal â 42B.

Ar ôl brecwast (brecwast llawn yn aml), dw i'n treulio'r rhan fwyaf o'r dyddiau ar y traeth neu wrth y pwll nofio gyda fy ffrindiau. Dw i'n treulio'r

nosweithiau gyda ffrindiau yn bwyta mewn bwytai (99B i 2000B yng ngwesty'r Hilton - felly, mae'n rhad dros ben i fwyta mewn gwesty crand yma) neu dwi'n bwyta bwyd stryd (40B) neu gael bwyd yn fy fflat yn gwyllo'r teledu, edrych ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn gwneud fy ngwaith cartref Cymraeg. Ar hyn o bryd, dw i'n astudio Cymraeg ar lefel Uwch 2.

Mae pobl Thai yn hoffi bwyta pryfed wedi'u ffrio - i fi, does dim gobaith caneri i fi fwyta'r rheiny - ych a fi!!!!!!

Galla i siarad Cymraeg, ond ddim yn hollol rugl eto - efallai tua 60%. Wedyn, ychydig o flynyddoedd yn ôl, es i i'r ysgol yma i ddysgu'r iaith Thai. Galla i ysgrifennu a darllen yr iaith Thai sylfaenol hefyd. Yng Nghymru, cyfarwyddwr a thrysorydd i ddwy elusen leol dw i a hefyd yn llywodraethwr ysgol gymunedol. Galla i ymuno â'r cyfarfodydd ar-lein yn defnyddio Teams neu Zoom a dw i'n gallu mynychu'r dosbarthiadau Cymraeg yn hawdd iawn hefyd wrth gwrs. Oherwydd y gwahaniaeth amser (+7 awr), mae rhai cyfarfodydd wedi bod am hanner nos!!!!

Yn ddiweddar, dw i wedi cael fy sbarduno i siarad gyda dau Gymro arall sy'n byw yma yng Ngwlad Thai, y ddau yn siaradwyr Cymraeg rhugl, un o Lanelli a'r llall o'r gogledd. Dw i'n gwisgo fy nghortyn Cymraeg i ddangos fy mod i'n gallu siarad Cymraeg. Mae'n werth wneud i gwrdd â Chymry newydd yma.

Yn ychwanegol, o dro i dro, dw i'n mynd dros y ffin i Cambodia am dridiau neu benwythnos hir - Pnhom Penh neu Siam Reap, cartref Angkor Wat. Mae'n lle hardd iawn.

Dw i'n hapus iawn yma ond dw i'n hynod o hapus pan fydda i'n mynd yn ôl i Gymru - heb os nac oni bai!! Dw i'n 66 oed ac yn teimlo fy mod i yn fy anterth o hyd - i allu dewis a dethol pryd, beth, ble a sut dw i eisiau byw fy mywyd. Dw i'n teimlo'n ffodus dros ben.

Nodyn i Kelvin - dydw i ddim yn gwybod eich cyfeiriad ebost i chi gael Y Wennol bob mis. Allwch chi gysylltu â fi os gwelwch yn dda?

Belt a Bresys

gan Rob Evans

Roeddwn i wedi cael wythnos anarferol o ofnadwy ac roedd yn rhyddhad mawr i gyrraedd dydd Sadwrn a gweld diwrnod braf tu allan. Roedd taith y Gymdeithas yn addawol hefyd, roedd Margaret Levi yn mynd i'n tywys ni ar daith yn mynd â ni heibio Castell Coch. Roeddwn i wir angen cerdded mewn ardal ddiarth i mi, mwynhau siarad Cymraeg a bod yn yr awyr agored. Erbyn chwarter i naw roeddwn i'n rhoi'r cod post yn y SatNav ac i ffwrdd â fi.

Doedden ni ddim wedi cael y fath ddiwrnod am sbel ac roedd hi wir yn bleser i fynd ar yr M4, hyd yn oed efo'r haul yn fy llygaid trwy'r amser. Roedd gen i ryw syniad o ble fydden ni'n cyfarfod ond doeddwn i ddim wedi edrych ar y map. Fel arfer dw i'n defnyddio'r map OS Cymru sydd ar fy nghyfrifiadur, cael syniad o'r lle yn fy mhen a gadael i'r ddynes amyneddgar dros ben i fy arwain at y man cyfarfod. Ond fel o'n i'n dweud roeddwn i wedi cael wythnos brysur ofnadwy ac wedi anghofio'r manylion ar y rhaglen. Wrth



nesáu at Coryton roedd y ddynes yn dweud wrtha i am gymryd y bedwerydd droad o'r cylchdro ac fel twpsyn nes i'w hanwybyddu hi. Chi'n gweld, y syniad yn fy mhen oedd dylwn i anelu at Gaerffili. Felly mae'r Dic Glyfar yma yn anelu at Merthyr ond roedd hi'n bendant fy mod i ar y ffordd anghywir. Gwell wrando arni

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

efallai, felly troi oddi ar yr A470 ac anelu at y Ddinas.

Cyn bo hir roeddwn i wedi cyrraedd Castell Coch ac, efo dipyn bach o bendantwydd y tro yma clywais hi'n dweud "TAKE THE NEXT TURNING ON THE LEFT". Tydi hi ddim yn gyfarwydd â'r geiriau "for goodness sake!" diolch byth. A dyma fi yn mynd i fyny Heol y Fforest a'r 'Destination' yn agosáu. Dim ond canllath i fynd ond o'm mlaen i roedd droad i'r dde, nid dim ond troad ond bachdro (hairpin) a dyma'r ffordd roedd rhaid i mi fynd. Roedd rhaid wneud troad tri pwynt a dyma fi ar fin mynd yn ôl er mwyn cwblhau'r troad pan wnaeth gar rhuo tu ôl i mi ar frys. Unwaith roedd o allan o'r ffordd nes i gwblhau y troad a bron yn syth roedd hi'n dweud "You have reached your destination!" Wel nag o'n wir, doedd dim le i barcio fan hyn. Es i ymlaen tan i mi gyrraedd le i dynnu mewn a rhoi'r cod post i mewn eto, hithau'n dweud "Continue on the road". Yn amlwg roedd y cod cyntaf yn anghywir ac ymlaen â fi yn teimlo'n sicr o gyrraedd cyn 10.30 wedi'r cwbl. Panig drosodd.

Dw i'n mynd dros Fynydd Caerffili ac yn dal yn teimlo'n hapus mod i'n nesu at y man cyfarfod. Ond yn sydyn roeddwn i wedi cyrraedd Caerffili a hithau'n dweud "you have reached your destination!" "Sori Miss, I beg to differ!"

Doedd dim gobaith rŵan, doeddwn i ddim yn gallu cyrraedd mewn pryd ac roedd rhaid i mi dderbyn mai pwyso'r botwm 'Home' oedd y peth gorau. Drat! A finnau'n edrych ymlaen gymaint!

Cyrraedd adref ac edrych ar y map, roedd Heol y Fforest yn iawn ac roedd y man cyfarfod rhyw ganllath cyn y troad ofnadwy a bythgofiadwy.

Felly'r wers yw, os dach chi'n anelu at rywle mewn ardal sydd yn ddiarth i chi mae'n rhaid i chi ddefnyddio belt a bresys. Defnyddiwch y grid reference er mwyn cael llun o'r map yn eich pen a defnyddiwch "She that must be obeyed" er mwyn y filltir olaf.

A chroesi'ch bysedd!



John Cullwick

John Cullwick o Ben-y-Graig yn y Rhondda ydw i. Wedi cael fy magu yn Wolverhampton - roedd fy nhad yn filwr yn yr Ail Ryfel ac wedi cael ei bostio i Landrillo-yn-rhos, ar arfordir Sir Ddinbych; mam o Landrillo. Felly, aethom ni ar ein gwyliau o Wolverhampton i Landrillo yn ystod fy mhientyndod ac roeddwn yn hapus dros ben yng Ngogledd Cymru. Prifysgol nesa, ac mi es i Fangor (UCNW - Coleg Prifysgol Gogledd Cymru) ym 1966.

Ym Mangor, mi glywais Gymraeg yn cael ei siarad ym mhob lle, ac roedd llawer o fy ffrindiau yn Gymry Cymraeg. Huw Davies o Ynyswen a ddaeth yn actor ac athro yn Saesneg yn y Porth, Alun Ffred, brawd ieuengaf Dafydd Iwan. Pobl eraill yno ar y pryd oedd Dafydd Elis Thomas, Rhiannon Williams o Aberystwyth (Merch Jac L. Williams) ac yn awr yn berchennog 'Gemau Rhiannon yn Nhregaron), Alun Llwyd y prifardd. Bedwyr Lewis Jones oedd fy nhiwtor a ffrind mawr.

Roedd y 60au ym Mangor yn gyffrous iawn. Llawer o Gymraeg yn cael ei siarad ar y strydoedd, ond roedd pob arwydd stryd yn Saesneg yn unig. Tywysog Carlo oedd i fod yn Brins o Wales ym 1969; roedd Capel Celyn newydd gael ei foddi dan orchymyn Llundain a Bessie Braddock, MP; trychineb Aberfan; araith Tynged yr Iaith gan Saunders Lewis; yr etholiad yng Nghaerfyrddin efo Gwynfor Evans yn ennill yn erbyn Gwynoro Jones. Roedd y 60au yn gyfnod pwysig i Gymru fel cenedl ac i'r Cymry. Ac roedd y myfyrwyr ym Mangor yn 'revolting' - ac mae gennyf bot o baent gwyrdd hyd at heddiw!

Ar ôl Bangor, mi ges i swydd yn Llundain efo Tesco (ym 1969) ac, yn 1976, ges i swydd yng Ngogledd Cymru fel rheolwr rhanbarthol Tesco (Gogledd Cymru a'r Wirral) - yn byw yn Llanddulas yn Sir Ddinbych efo'r swyddfa yn yr Wyddgrug yn Sir y Fflint. Mi gwrddais â fy ngwraig yno - Bethan Owen-Jones - ac ar ôl dau o blant yn yr 80au does dim mwy i sgrifennu. Bywyd wedi bod yn esmwyth a hapus ers hynny ac rwy'n awdur rŵan (wele <http://www.lewissinclairassociates.cymru>).> Yn anffodus, llyfr bywgraffyddol yn yr iaith Saesneg - efallai cyfieithiad yn y Gymraeg yn nes ymlaen.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Gwyliau Cofiadwy

gan Sara Forrest

Fues i ddim tramor nes i fi gyrraedd deunaw oed. Yna, es i Awstria ar wyliau cerdded gyda ffrind a'i chwaer.

Doedd hediadau rhad ddim yn bodoli bryd 'ny, na thwnnel y sianel chwaith. Croeson ni'r sianel ar fferi ac wedyn teithion ni drwy'r nos mewn trêrn gyda 'couchettes'. Roedd popeth mor gyffrous fel na allon ni gysgu a chodon ni'n gynnar iawn i wyllo cefn gwlad Ffrainc, ac wedyn mynyddoedd y Swistir ac Awstria yn rhuthro heibio.

Dw i'n cofio cael fy nychryn gan y daith mewn bws ar ffyrdd serth a throellog o Bregenz ar ymyl llyn Constance (Bodensee fel mae'r Almaenwyr yn ei alw e) lan i'n gwesty ni ym mynyddoedd y Vorarlberg sydd yng ngodreion yr Alpau.



Arhoson ni am wythnos lan yn yr uchelfannau anhygoel. O'n gwesty gwelon ni weirgloddiau yn llawn o flodau Alpaidd a buchod yn pori gyda'u clychau o gwmpas eu gyddfau, ac yn tincian yn bersain. Roedd pob tŷ pert wedi ei wneud o bren fel ych chi'n gweld ar gloch y gog.

Aethon ni am dro bob dydd heblaw am un pan fuon ni'n ymweld â thref hynafol ar ymyl llyn Constance, lle oedd ffiniau tair gwlad, sef Awstria, yr Almaen a'r Swistir yn cwrdd. Buon ni'n gweld dylanwadau'r gwledydd gwahanol yn y ffordd o adeiladu a'r iaith.

Roedd golygfeydd syfrdanol ar bob taith gerdded. Un dydd cawson ni lifft ski lan mynydd ac wedyn cerddon ni i fyny ac ar hyd crib gul uchel o le ro'n ni'n gallu gweld panorama ysgubol lawr i'r cymoedd a draw i fynyddoedd eraill. Roedd hyd yn oed cymylau ysgafn oddi tanom ni.

Roedd pob taith gerdded bron wyth neu ddeg milltir o hyd a bues i'n flinedig iawn ar ddiwedd

y diwrnod. Roedd adloniant traddodiadol gyda'r nos a ges i wydraid o Schnapps am y tro cyntaf!

Mae lluniau o hyfrydwch y cymoedd a'r blodau a'r mynyddoedd uchel yn dal i aros yn fy ngof a dw i'n breuddwydio am fynd yn ôl rhywbryd ond efallai am wyliau mwy hamddenol!

Croes Wisgo

gan Rob Evans



Y dyddiad yw'r 13eg o Ragfyr ac ers dydd Iau diwethaf dw i wedi bod yn dathlu fel does dim yfory ac, wrth edrych yn ôl dydw i ddim yn cofio cyfnod fel hyn yn fy holl fywyd. Dydd Iau diwethaf roedd fy mhartner busnes a finnau'n dathlu efo'n cinio Nadolig yn Y Rhydspence ger y Gelli Gandryll ac ar ddydd Sadwrn roedd cinio blynyddol Cymdeithas Edward Llwyd yng Nghegin Gareth yn Llanbed. Neithiwr roedd cinio blynyddol Cymdeithas Hanes Bro Ogwr a heddiw, dydd Mawrth roedd cinio blynyddol ein grŵp siarad yn y Caffi yn Southgate, Gŵyr. Dydd Iau mi fydd cinio blynyddol ein grŵp Shw Mae Dydd Iau yn Llanmadoc ac maen nhw wedi gaddo cacen pen-blwydd i mi - dw i'n cael fy sbwylio yn wir!

Ond mae'n rhaid i mi ddweud wrthoch chi am rywbeth a wnaeth ddigwydd heddiw, gwneud datganiad mewn ffordd.

Chi'n gweld roedd Martin wedi trefnu ein cinio yn Southgate ac wedi mynnu ein bod ni i gyd yn gwisgo rhywbeth Nadoligaidd, ond does gen i ddim byd o'r fath yn y tŷ. Nid fy mod i'n hen grwmp na dim byd fel 'na ond roedd personoliaeth fy niweddar wraig yn gallu goleuo ystafell yn well nag unrhyw goeden ac mae addurno ddim ond yn fy atgoffa o beth dw i wedi colli.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Ond y bore 'ma roeddwn yn teimlo'n ansicr, doeddwn i ddim eisiau sbwylio hwyl pawb arall ond yr unig beth oedd gen i oedd hosan fawr goch, byswn i'n edrych yn wirion yn gwisgo hi ar fy nghoes. Beth i'w wneud? Roedd Elaine yn mynd i'r cinio hefyd a ffoniais i hi dim ond i ddysgu nad oedd hi'n gallu mynd wedi'r cwbl achos rhyw argyfwng yn yr eglwys ond roeddwn i'n gallu benthyg un o siwmperi ei gŵr. Ond roedd rhaid i mi fynd yna yn syth achos roedden nhw ar fin mynd allan. Doth Leighton at y drws a dangos siwmpwr ddelfrydol i mi a dyna le oedd o'n dangos i mi sut i droi'r goleuadau ymlaen arni pan nes i gofio gofyn a oedd defnydd o bolyester ynddi. Oedd, mi oedd ac na alla i wisgo unrhyw beth sy'n cynnwys polyester. Crafu pennau ac wedyn Elaine yn cynnig un o'i siwmperi hi, un o'r 'Pringle Collection' a smart iawn wrth gwrs, ond dim goleuadau! Yn amlwg mae Leighton yn llawer mwy fflashi nag Elaine!

Mewn ffordd roedd popeth yn iawn rŵan ond roedd gwynt persawr Elaine ar y siwmpwr. Gobeithio na fydd y lleill yn sylwi neu bydden nhw'n meddwl mod i wedi dechrau gwisgo persawr. Bydd rhaid i mi esbonio popeth iddyn nhw. Felly dyma fi'n cyfaddef fy mod i'n gwisgo dillad merched, wel dim ond un dilledyn wrth gwrs.

Cawson lawer o hwyl, llawer o chwerthin a thipyn o ganu a dw i'n falch o ddweud wrth wneud tipyn o 'cross dressing' nes i lwyddo i beidio fod yn 'ddyn blin'!

Ôl Nodyn. Dw i newydd dod yn ôl o gyfarfod Shw mae dydd Iau yn Llanmadoc a ces i fy sbwylio'n racs! Diolch yn fawr i Siân a'r criw!

Mae'n braf cael hwyl!

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr Y Parti Nadolig



adolygiad gan Rob Evans

Dros y flwyddyn mae Nesta, a hefyd Richard wedi bod yn ffyddlon iawn i'r Wennol yn anfon adroddiadau o'r cyfarfodydd a'r gweithgareddau sydd wedi bod a diolch iddyn nhw am hynny. Ond maen nhw'n bobl ddiymhongar ac felly mae'n anodd iddyn nhw ganu cloch eu hunain ac roedd y parti Nadolig yn haeddu caniad llawer mwy nag un gloch. Noson bleserus dros ben!

Roedd y parti yn cael ei gynnal yng Nghlwb Criced Tondy ar noson oer o fis Rhagfyr ond roedd croeso cynnes iawn i ni wrth i ni gyrraedd. Mae Martin Jones a finau wedi bod yn aelodau am ddwy flynedd erbyn hyn a rhan fwyaf o'r amser mae'r cyfarfodydd wedi bod ar Zoom. Yn ystod yr haf roedden ni wedi cael y cyfle i gyfarfod yr aelodau yn y gweithgareddau allanol. Roedd yn bleser i weld pawb unwaith eto.

Wnaeth Richard ddechrau pethau wrth gyflwyno Rod Thomas ar gitâr, a chôr o ddysgwyr (ac un tiwtor dw i'n credu). Gyda llaw oedd Rod a Lyndon yn eithaf enwog fel deuawd yn y chwedegau ar raglenni fel Disc a Dawn. Byddech chi'n ffeindio fideos bach ar You Tube os ddych chi'n chwilio amdanyh nhw!

Gwelwch <https://www.45cat.com/record/bug19>

Roedden nhw'n ardderchog a phopeth yn hwyl. Dechreuon nhw efo Calon Lân ac roedd pawb yn hapus iawn i gymryd rhan yn y canu, erbyn y diwedd roedden ni wedi cael ein hatgoffa bod mwy nag un dôn. Roedd pawb wedi llwyddo i'w cofio ac wedi llwyddo i gydio yn wir ysbryd yr Ŵyl. Wrth i mi fynd yn hŷn, neu efallai achos o'n i'n cael llawer o bleser dydw i ddim yn cofio'r caneuon i gyd ond roedd yn adloniant gwych i'n paratoi ni am y bwyd. Bwffe arbennig wedi ei baratoi gan y Clwb Criced, felly cyfle i eistedd yn ôl, mwynhau'r bwyd a chael sgysiau difyr efo ffrindiau.

Hynny yn ein paratoi ni am Y Cwis ac roedd Enid wedi bod yn brysur iawn yn paratoi 21 o gwestiynau am hanes Cymru. Credwch chi fi dydy paratoi cwestiynau ar gyfer cwis ddim yn beth hawdd i'w wneud. Cyfle da i ni roi ymarfer i'r celloedd bach llwyd fel oedd Hercule Poirot yn dweud. Dydw i ddim eisio brolio wrth gwrs ond wnaeth ein tîm ni'n reit dda i ddod yn ail i'r enillwyr - tîm Richard - llongyfarchiadau iddyn nhw a diolch yn fawr am rannu'r bag mawr o

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Quality Street efo pawb. Diolch hefyd i un tîm am ofyn a oedden nhw'n gallu cael hanner pwynt am ateb 'Edward y Cyntaf' pan 'Edward yr ail' oedd yr ateb cywir. Roedd yr apêl yna yn adlewyrchu'r hwyl oedd pawb yn cael. Diolch Enid am wneud gwaith mor dda.

Roedd raffl hefyd ac roedd rhai ohonom ni wedi bod yn ddigon lwcus i ennill gwobr, a dw i'n ddiolchgar iawn am hynny!

Ac roedd rhaid gorffen efo cyfle arall i ganu ac, wrth gwrs roedd 'Yma o Hyd' yn rhan fawr o'r repertoire a phawb wedyn ar eu traed i ganu Hen Wlad fy Nhadau efo digon o falchder i godi'r to!

Ac i chi sydd yn darllen y pwt yma ac sydd ddim yn aelodau cofiwch fod llawer o'r rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf ar Zoom felly does dim ots ble dach chi'n byw mae'n werth fod yn aelod. Dim ond £15 a chyfle i chi ddysgu llawer am hanes ein pobl ac ein gwlad. Os dach chi'n byw yn lleol, wel mae bod yn aelod, fel mae'r Saeson yn dweud, yn no brainer! Gwnewch hynny rwan - cyn i chi anghofio.

Cysylltwch â NESTA
nestahumphreys@btinternet.com

Geirfa

Dysgwyr Rhydychen

Mynychu - to attend
Yn arferol - as a rule
Calonogi - to encourage
Digwyddiadau - events
Arweinydd - leader
Afon Tafwys - the Thames
Diffyg amser - lack of time
Swil - shy

Tudalenau'r Dechreuwyr

Aberdaugleddau - Milford Haven
Ynysig - isolated
Cig oen tew - fat lambs
Wedi ei hanafu - injured
Yn ôl i'r gwyllt - back to the wild
Prif reswm - main reason
Dinbych -y-pysgod - Tenby
Baner - flag

Ar fy mwys - by my side
Cymydog - neighbour
O ddifri - seriously
Cysylltiad - connection
Hudolus - enchanting
Ynys Wyth - Isle of Wight
Awyddus - keen
Diwylliant - culture

Garth Newydd

Braint - privilege
Adnodd - resource
Cyffiniau - environs
Diarth - strange
Cyfathrebu - to communicate
Ysu - to yearn
Llaw yn llaw - hand in hand
Perchennog - owner
Cymryd balchder - to take pride
Helaeth - spacious
Dweud cyfrolau - to speak volumes

Esgidiau Breintiedig

Breintiedig - privileged
Mynnu - to insist
Dyrchafiad - promotion
Cerfddelw - statue
Gwarchod - to protect
Adfeilion - ruins
Cyflawni gwyrth - to perform a miracle
Seithug - futile
Dienyddio - to execute
Erchyll - horrible, hideous
Gwladgarwr - patriot
Ar ruthr - at a rush
Lliwiau hydrefol - autumn colours
Ffwng - fungi
Yn syth - straight away
Cyflwyno - to introduce
Boncyff ffawydd - beech trunk
Fel y gwyddoch - as you know
Llyfn - smooth
Meinciau - benches
Unfrydol - unanimous
Tirlun - landscape

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Camfa - stile
Esgidiau budron - dirty boots
Stribyn - a strip
Llawn gogoniant - full glory
Syllu - to stare
Golau llachar - bright light
Diferyn - a drop

Gwyddel yng Ngŵyr

Cefndir - background
Hamddenol - leisurely
Dangos parch - to show respect
Yr un anian - of the same mind
Amynedd - patience

Bertsolari

Traddodiad - tradition
Yn enwedig - especially
Barddoniaeth - poetry
Llawer o barch - a great respect
Tebygrwydd - similarity
Ar y pryd - instantly
Penillion - verses
Creu - to create
Datblygu - to develop
Canlyniad - result
Torf - the crowd
Pencampwriaeth - championship

Bachgen yn Aberystwyth

Dylandadu - to influence
Bodoli - to exist
Deallus intelligent
Gweithgareddau - activities
Dychymyg - imagination
Creaduriaid - creatures
Esty - to reach out
Esmwyth - smooth
Cogio - to pretend
Fferins - sweets
Goleuedig - enlightened

Y Llyfr

Lledr - leather
Treulio - to wear (to show wear)
Digwyddiadau - events

Cofnodi - to note, to record
Achlysur - occasion
Genedigaeth - birth
Bedyddiad - baptism
Cyfarwydd - familiar
Gan gynnwys - including
Cyson - steady

Enwau Llefydd

Carreg calch - limestone
Trefgordd - township
Dynodi - to record
Caniatâd cynllunio - planning permission
Anghysbell - remote
Amrywio - to vary
Hwyluso - to ease
Hyrwyddo - to promote
Rhwyllyd - freezing
Yn pylu - to decrease
Gwerthfawrogi - to appreciate
Bele'r coed - pine marten
Eithin - gorse

O Doire i'r Alban

Béal Feirste - Belfast
Parhau - to last
Paratoi - to prepare
Gêm gyfeillgar - friendly game
Awyrgylch - atmosphere
Cerddoriaeth - the music
Orsaf fysiau - bus station
Ambell i beint - many a pint (!!!)
Doire - Derry

Gwlad Thai

Cyfreithiwr - solicitor
Cant a mil - a way to say 'an awful lot'
Arian cyfredol - currency
Rhad dros ben - very cheap
Pryfed - flies
Dim gobaith caneri - no hope
Cyfarwyddwr - director
Trysorydd - treasurer
Elusen - charity
Llywodraethwr - governor

19 Ysgol gymunedol - community school

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Mynychu - to attend

Sbarduno - to spark

Cortyn Cymraeg - Welsh lanyard

Yn fy anterth - in my prime

Dewis a dethol - to pick and choose

Brolio - to boast

Adlewyrchu - to reflect

Bywyd John Cullwick

Milwr - soldier

Cyffrous - exciting

Arwydd stryd - street sign

Orchymyn - order, command

Trychineb - disaster

Etholiad - election

Fel cenedl - as a nation

Esmwyth - smooth

Bywgraffiadol - biographical

Gwyliau Cofiadwy

Hediadau rhad - cheap flights

Rhuthro - to rush

Godreon - foothills

Uchelfannau - uplands

Gweirglodd - meadow

Buchod - cattle

Persain - melodious

Cloch y gog - cuckoo clock

Hynafol - ancient

Dylanwad - influence

Syfrdanol - stunning

Crib gul - narrow crest

Ysgubol - sweeping

Adloniant - entertainment

Croes wisgo

Y Gelli Gandryll - Hay on Wye

Addurno - to decorate

Delfrydol - ideal

Defnydd - a content (of)

Gwynt persawr - an air of perfume

Y Parti Nadolig

Gweithgareddau - activities

Diymhongar - modest

Canu cloch - to boast

Cyflwyno - to introduce

Celloedd bach llwyd - little grey cells